

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
3 Gorffennaf 2017 yn Neuadd Jiwibili Llangeitho am 8 o'r gloch.

Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday 3 July 2017 in Jubilee Hall, Llangeitho at 8pm

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol ac yn benodol Mr Daniel Thomas a oedd nawr yn cynrychioli Ward Gwynfil.
The Chair welcomed everyone to the monthly meeting, especially Mr Daniel Thomas who now represents Gwynfil ward.

Presennol/Present

Rhian Turner (Gadair/Chair); Gwilym Evans, Emyr Jones, Myrddin James, Dafydd Morse; Daniel Thomas, Eirian Jones a Cyng John Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng Gerwyn Ebenezer, Beryl Evans & Cyng Rhodri Evans.

Datgan Diddordeb/Declaring an Interest – Neb/No one

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/ Minutes of the last meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig John Evans ac eiliwyd gan Eirian Jones.
John Evans proposed accepting the Minutes of the last meeting, and this was seconded by Eirian Jones.

Materion yn codi o'r cofnodion Matters arising from the Minutes

- Soniwyd fod baner y Ddraig goch wedi'u phrynu a'i doddi lan yn yr Ysgol Gynradd.
- *It was mentioned that a Welsh red dragon flag had been bought and raised aloft by the Primary School.*
- Gwaith ar y parc wedi'u gwplu.
- *The work in the park has been completed.*
- Clerc i ymchwilio mewn i focs pwrpasol i ddal y peiriant diffib tu allan y Neuadd Jiwibili.
- *Clerk to look into buying a purposeful box for the defibrillator located outside Jubilee Hall.*

DATGAN DIDDORDEB/DECLARING AN INTEREST: Cyng/Cllr Myrddin James

- Clerc wedi cysylltu efo rhai o'r enwau oedd wedi'u rhoi gerbron y cyfarfod diwethaf ar gyfer llenwi'r sedd wag a chytunodd Mrs Gwenfair Owen i ddod ar y pwyllgor fel Cyngorydd i Ward Penuwch.
- *Clerk has been in contact with those whose names were put forward at the last meeting for the vacant seat; Mrs Gwenfair Owen has agreed to become a councillor for the Penuwch ward.*
- Cytunwyd i gyfrannu £100 tuag at y Girl Guides/Brownies oedd wedi cael ei adael allan o'r rhestr yn ceisio am gymorth ariannol yn y cyfarfod diwethaf.
- *It was agreed to give £100 to the Girl Guides/Brownies – they had, unfortunately, been missed out on the list seeking financial support at the last meeting.*
- Ni dderbyniwyd unrhyw fanylion am y rhodd ariannol o'r felin wynt Goyallt nol i'r gymuned.
- *No further details were received about the financial donation given to the community from the Goyallt wind turbine.*
- Soniwyd bod y cloddiau wedi'u torri oddi amgylch y Sir.
- *It was noted that road hedges were being mown across the County.*

Gohebiaeth/Correspondence

- Derbyniwyd llythyron o ddiolch am y rhodd ariannol oddi wrth Eglwys St Ceitho, Llangeitho, Eglwys Llanbadarn Odwyn, Llwynpiod, Capel Gwynfil, Llangeitho, Carnifal Llangeitho a Chapel Penuwch.
- *Letters of thanks were received from the following on receipt of the Council's financial donation: St Ceitho Church, Llangeitho, Llanbadarn Odwyn Church, Llwynpiod, Gwynfil Chapel, Llangeitho, Llangeitho Carnival and Penuwch Chapel.*

Cyfrifon/Accounts

- Mr Gareth Jones, Archwiliwr Mewnol / Internal Auditor £20
- Neuadd Jiwibili / Jubille Hall £24.00
- Capel Penuwch Chapel £18.00
- Capel Llwynpiod Chapel £18.00
- Dai Stephens, Adeiladwr/ Builder £874.70

Cynnigwyd i'w dalu ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng John Evans.
Payment was proposed by Cllr Gwilym Evans, and this was seconded by Cllr John Evans.

Cyngor Sir Ceredigion/Ceredigion County Council

Derbyniwyd a thrafodwyd y ceisiadau cynllunio isod:
The following planning applications were received and discussed:

- Erection of an agricultural building, Llwyngwinau Uchaf, Tynreithin, Tregaron – Nid yn Ward Llangeitho/ *Not in Llangeitho ward*
- Amrywio amod 2 o'r caniatâd cynllunio A100610 – Daear yn Dolifor, Llangeitho – Dim gwrthwynebiad – DATGAN DIDDORDEB – Cyng Myrddin James

- *Amending stipulation 2 of planning permission A100610 – Land at Dolifor, Llangeitho – No objections – DECLARING AN INTEREST – Cllr Myrddin James*
- *Amrywio amod 13 o ganiatâd cynllunio A160018 – Daear yn Troed-y-Bryn, Llwynygroes – Dim gwrthwynebiad.*
- *Amending stipulation 13 of planning permission A160018 – Land at Troed-y-Bryn, Llwynygroes – No objections.*

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- *Derbyniwyd cais oddi wrth Bwyllgor y Barcud yn gofyn i'r Cyngor Cymuned anfon adroddiad misol i'w gynnwys yn y papur bro – Y Barcud – cytunwyd i'r cais.*
- *Request from the Committee of Y Barcud received, asking the Community Council to send a monthly report to be included in the community newspaper – request agreed to.*
- *Ysgol Llangeitho wedi bod yn llwyddiannus i ddod i'r rhestr fer ar gyfer ennill offer chwaraeon i'r ddau gampws trwy bleidleisio gyda disgiau siopa yn Tesco Aberystwyth, gofynnir i'r Cyngorwyr gefnogi'r fenter os byddant yn defnyddio siop Tesco Aberystwyth.*
- *Llangeitho School has been successful in getting onto the short-list at Tesco, Aberystwyth, for the opportunity to get free sports equipment for both campuses. Councillors urged to support, if they visit Tesco Aberystwyth, by collecting discs for the school.*
- *Derbyniwyd cwyn nad oedd bin baw cŵn Stags Head wedi'u wagio ers nifer fawr o wythnosau, clerwr i ddilyn lan.*
- *Complaint received noting that the dog waste bin in Stags Head has not been emptied for quite some time. Clerk to follow this up.*
- *Soniwyd bod angen ymweld â'r cysgodfan bysiau yn ein hardaloedd i'r glanhau a gan fod yna sylw wedi'u ddwyn at yr asbestos oedd yn do'r cysgodfan Stags Head, gofynnir i'r Clerwr anfon manylion ymlaen i'r Cyngor Sir i ddod allan i'w archwilio.*
- *Need to visit the bus shelters in our areas, as it appears that asbestos was located in the roof of the bus shelter in Stags Heas; Clerk to send information to the County Council for them to investigate further.*
- *Derbyniwyd cwyn am y ffordd gafodd canlyniadau'r etholiad diwethaf ei gyhoeddi.*
- *Complaint received about how the result of the last election was announced.*

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date and Location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Festri Llwynpiod ar nos Lun 4 Medi 2017 am 8 o'r gloch.

The next meeting will be held at Llwynpiod Chapel Vestry, on Monday, 4 September 2017, at 8p.m.